***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 50

# Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2016

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013**

**19.** Ym mharagraff 41 (enillion enillwyr hunangyflogedig: pensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (2)(b)(i) ar ôl "o Ddeddf Plant (Yr Alban) 1995" mewnosoder ", neu adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014";

(b) yn is-baragraff (2)(d)—

(i) ar ddiwedd paragraff (iv) hepgorer "neu";

(ii) ar ôl paragraff (v) mewnosoder—

"(vi) y person dan sylw pan fo'r taliad ar gyfer darparu llety i ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth a drefnir yn unol ag adran 35 neu 36 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; neu

(vii) y person dan sylw pan fo'r taliad ar gyfer darparu llety i ddiwallu ei anghenion am ofal a chymorth a drefnir yn unol ag adran 18 neu 19 o Ddeddf Gofal 2014;".